



At bob Ymarferydd

Chwefror 2017

Annwyl Gyfaill,

## **COFRESTRU PROFFESIYNOL, FFI OEDD COFRESTRU A PHASBORT DYSGU PROFFESIYNOL**

### ***Cofrestru Proffesiynol***

Cafodd Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ei sefydlu yn 2015 ac mae'n gyfrifol am reoleiddio'r gweithlu addysg ehangach yng Nghymru, hybu safonau addysgu uchel a chynnal ymddygiad proffesiynol ymarferwyr.

Mae'n ofynnol i bob athro ysgol, pob athro addysg bellach a phob gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgolion a lleoliadau AB yng Nghymru gofrestru â CGA. O fis Ebrill 2017 ymlaen, bydd yn ofynnol i weithwyr ieuencid, gweithwyr cymorth ieuencid ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith gofrestru â CGA.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cofrestru'r gweithlu addysg yn dod â manteision clir. Mae'n cryfhau'r statws ac yn cydnabod y rôl hanfodol a gwerthfawr y mae ymarferwyr yn ei chwarae drwy gefnogi addysgu a dysgu. Mae hefyd yn codi ac yn cynnal safonau fel rhan o un gweithlu addysg cydlynus.

### ***Ffi Gofrestru***

Yn yr ymgynghoriadau 'Ffioedd cofrestru ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru' yn 2014 ac yn 2016, nododd Llywodraeth Cymru yn glir y byddai'r model ffioedd a ffefrid ganddi yn ei gwneud yn ofynnol diwygio Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol; ac ailddosbarthu'r lwfans o £33 a dderbynnid gan athrawon a oedd yn gweithio mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Ym mis Awst 2016, cymeradwyodd y Corff Adolygu Athrawon Ysgol y diwygiad hwn i'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol ac, yn dilyn hynny, dilëwyd yr adran berthnasol a oedd yn cyfeirio at y lwfans o £33 i athrawon ysgol. Yn dilyn y gymeradwyaeth hon, rhoddodd Ysgrifennydd Cyllid a Llywodraeth Leol y Cabinet ac Ysgrifennydd Addysg y Cabinet ganiatâd i drosglwyddo £1 miliwn, yn weithredol o 2017-18, o'r Grant Cynnal Refeniw i ategu'r cymhorthdal cofrestru ar gyfer pob ymarferydd. Bydd y cymhorthdal o £1 miliwn bellach o fudd i bob ymarferydd, yn enwedig yr ymarferwyr hynny sy'n cofrestru yn y categorïau cyflog is.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried pennu'r ffioedd cofrestru yn ôl enillion/cyflogau ymarferwyr ac a oeddent yn gweithio'n llawn amser neu'n rhan amser. Fodd bynnag, yn dilyn gwaith dadansoddi pellach, mae'r math hwn o fodel yn gymhleth iawn a byddai'n gosod baich gweinyddol ar CGA ac ar gyflogwyr i'w reoli; gan arwain at gynnydd mewn ffioedd cofrestru i bob ymarferydd er mwyn talu'r costau gweinyddol ychwanegol.

Mae lefelau'r ffioedd ar gyfer ymarferwyr o 1 Ebrill 2017 wedi eu nodi yn atodiad A.

### ***Y Pasbort Dysgu Proffesiynol (PDP)***

Mae'r PDP yn e-bortffolio sydd ar wefan CGA. Mae'n adnodd ar-lein rhad ac am ddim sydd ar gael i bob ymarferydd cofrestredig.

Mae'r PDP yn cynnig platfform cenedlaethol lle y gall ymarferwyr cofrestredig gofnodi'r dysgu proffesiynol yn eu gyrfa. Fel rhan bwysig o ddatblygiad proffesiynol y gweithlu addysg cofrestredig, bydd y PDP yn helpu ymarferwyr cofrestredig gyda'u dysgu proffesiynol drwy eu gyrfa a hynny drwy gofnodi datblygiad eu hymarfer ar wahanol gamau o'u gyrfa a rhoi cyfle iddynt roi sylw iddo.

Yr ymarferwr ei hun sy'n berchen ar y Pasbort a'r unigolyn sy'n penderfynu a yw am rannu'r PDP â'i reolwr llinell, ei fentor, ei gydweithiwr neu gynulleidfa ehangach ai peidio.

I gael rhagor o wybodaeth am y PDP ewch i [www.cga.cymru](http://www.cga.cymru).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr wybodaeth yn y llythyr hwn, e-bostiwch [ewc.enquiries@cymru.gsi.gov.uk](mailto:ewc.enquiries@cymru.gsi.gov.uk).

Yn gywir,



Zenny Saunders  
Pennaeth Strategaeth y Gweithlu

## Atodiad A

### Trefniadau ffioedd ar gyfer Cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg

O 1 Ebrill 2017, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cymhorthdal\* ar gyfer ffi gofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA). Heb y cymorthdaliadau, byddai pob grŵp yn talu ffi o £46.

<b><i>Categori Cofrestru</i></b>	<b><i>Y FFI i'w thalu</i></b>
<i>Athro Ysgol</i>	<b>£45</b>
<i>Athro Addysg Bellach</i>	<b>£45</b>
<i>Gweithiwr Cymorth Dysgu mewn Ysgol</i>	<b>£15</b>
<i>Gweithiwr Cymorth Dysgu mewn Addysg Bellach</i>	<b>£15</b>
<i>Ymarferwr Dysgu Seiliedig ar Waith</i>	<b>£45</b>
<i>Gweithiwr Ieuenctid</i>	<b>£45</b>
<i>Gweithiwr Cymorth Ieuenctid</i>	<b>£15</b>

\* Dim ond lle y bo'n ofynnol cofrestru â CGA y mae'r cymhorthdal ar gael.

**D.S. Mae modd cael gostyngiad treth ar gyfraniadau'r ffioedd cofrestru.**